



## Branwen – CA5

### Tasg 1 – Gwaith llafar



Dyma bedair enghraifft o frawddegau cyntaf Branwen Ferch Llŷr gan awduron gwahanol.

Darllenwch y pedair colofn yn ofalus ac yna trafodwch â'ch partner beth yw'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhyngddynt.



<p>Edwards, J. M. (1921) <i>Mabinogion o Lyfr Coch Hergest</i>, Hughes a'i fab; Wrecsam (t. 33)</p>	<p><b>Williams, I. (1930) <i>Pedeir Keinc y Mabinogi</i>, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd (t. 29)</b></p>	<p>Ifans, D a Rh. (1980) <i>Y Mabinogion</i>, Gwasg Gomer, Llandysul (t. 21)</p>	<p>Thomas, G. (1984) <i>Y Mabinogi</i>, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd (t. 30)</p>
<p>Bendigaid Fran, fab Llyr, oedd frenin coronog ar yr ynys hon, a gwisgai goron ardderchog Llundain. Brynhawn-gwaith yr oedd yn Harlech yn Ardudwy, mewn llys iddo; ac yn eistedd yr oeddynt ar garreg Harlech uwchben y weilgi. A Manawyddan fab Llyr, ei frawd, oedd gydag ef, a dau frodyr o'r un fam ag ef, - Nisien ac Efnisien, - a gwŷr-da eraill, fel y gweddai o gylch brenin.</p>	<p><b>BENDIGEIDURAN</b> uab Llyr, a oed urenhin coronawc ar yr ynys hon, ac ardyrchawc o goron Lundein. A frynhawngueith yd oed yn Hardlech yn Ardudwy, yn llysidaw. Ac yn eistedd yd oeddynt ar garreg Hardlech, uch pen y weilgi, a Manawydan uab Lyr y urawt y gyt ac ef, a deu uroder un uam ac ef, Nissyen, ac Efnysylen, a guyrda y am hynny, mal y gwedei ynghylch brenin.</p>	<p>Yr oedd Bendigeidfran fab Llŷr yn frenin coronog ar yr ynys hon ac wedi ei arwisgo â choron Llundain. Ac un prynhawn yr oedd yn Harlech yn Ardudwy yn un o'i lysoedd. Ac yr oeddynt yn eistedd ar garreg Harlech uwch ben y weilgi a Manawydan fab Llyr ei frawd gydag ef, a dau frawd o'r un fam ag ef, Nysien ac Efnysien, a gwyrda heblaw hynny fel y gweddai o gwmpas brenin.</p>	<p>Roedd Bendigeidfran fab Llŷr yn frenin ar ynys Prydain ac wedi ei godi i wisgo coron Llundain. Ac un prynhawn yr oedd yn Harlech, uwchben y môr, a Manawydan fab Llŷr ei frawd, gydag ef a dau hanner-brawd arall, sef Nisien ac Efnisien, ac uchelwyr eraill heblaw'r rhain, fel sy'n weddus o gwmpas brenin.</p>



## Branwen – CA5

### Tasg 2 – Trosi

Heb edrych ar gyfaddasiad Gwyn Thomas, ewch ati i gyfieithu'r paragraff isod yn ôl i'r Gymraeg.

Daw'r darn allan o gyfieithiad Sioned Davies

The letter was tied to the base of the bird's wings, and it was sent to Wales, and the bird came to this island. It found Benigeidfran in Caer Saint in Arfon, where he was at a council of his one day. The bird alighted on his shoulder, and ruffled its feathers until the letter was discovered and they realized that the bird has been reared among people. Then the letter was taken and examined. When it was read, Bendigeidfran grieved to hear how Branwen was being punished, and there and then he sent messengers to muster the entire island.

Davies, S. (cyf) (2007) *The Mabinogion*, Gwasg Prifysgol Rhydychen: Rhydychen t. 28

© *The Mabinogi translated by Davies (2007) 100w from p.28* - [www.oup.com](http://www.oup.com)

Yna, cymharwch eich fersiwn chi â fersiwn Gwyn Thomas.

Beth sy'n debyg? Beth sy'n wahanol? Beth a ddysgoch chi am grefft cyfieithu yn yr ymarfer hwn?



## Branwen – CA5

### Tasg 3 – Trydargerdd

Un o'r rhannau enwocaf yn stori Branwen yw'r darn sy'n disgrifio Branwen yn anfon y drudwy dros y môr gyda llythyr yn ei blu er mwyn dweud wrth Bendigeidfran ei brawd ei bod hi'n cael ei cham-drin. (Darllenwch y darn ar frig tudalen 37.)



Ar hyd y canrifoedd, mae pobl wedi dyfeisio ffyrdd o gysylltu â'i gilydd dros bellter. O anfon arwyddion mwg i chwifio baner, o neges mewn potel i lythyr, o deigram i neges destun. Un o'r ffyrdd mwyaf poblogaidd erbyn heddiw yw trwy 'drydar'.

Mewn neges drydar, tan yn ddiweddar iawn, doedd dim modd defnyddio mwy na 140 o nodau cyfrifiadurol (erbyn hyn mae hyn wedi dyblu i 280 o nodau cyfrifiadurol). Mae hyn yn gofyn am ddyfeisgarwch a chynildeb.

Ar y rhaglen radio boblogaidd *Talwrn y Beirdd*, mae Ceri Wyn Jones, y *Meuryn*, (sef yr enw ar yr un sy'n rhoi'r marciau i'r timoedd o feirdd am eu gwaith) wedi cyflwyno mesur newydd: 'trydargerdd'.



Yn union fel roedd y neges ddigidol, nid oes modd i bennill trydargerdd fod dros 140 o nodau cyfrifiadurol.

Dyma rai enghreifftiau o'r llyfr *Pigion y Talwrn*.

Jones, C. (gol) (2016) *Pigion y Talwrn*, Barddas: Talybont

Cewch chi benderfynu sawl marc allan o 10 y byddech chi wedi rhoi am y trydargerddi hyn!

(Tybed allwch chi adnabod pa ddwy neges sydd ar ffurf englyn?)

#### RHESTR SIOPA

Cyri twym o Gastell Newy',

Dau bwys o briwns a ffisig 'di rhewi,

Deg tun o fins i'm cadw'n iach

A phum rôl ar hugain o bapur tŷ bach.

Dewi Pws Morris

#### JÔC ADDAS AR GYFER CRACYR NADOLIG

C. Beth wedodd y twrci yr hoffai fel present?



A. Nadolig bach arall. Cwciwch y ffesant.

Dewi Pws Morris

#### NEGES YN DWEUD Y DREFN

#gwellcymraegslacna...

Stwffia dy agweddau *stuffy*, so *what* os yw'r geiriau teidi a'r treiglade'n eisiau gen-i? Wa'th ma' hon yn iaith i mi.

Llion Jones

#### NEGES YN CEISIO DAD-WNEUD CAMGYMERIAD

Duw ddihunodd y dydd hwnnw a dweud: 'os dyn ar fy nelw sy'n troi fy myd yn lludw, myn diawl, gwnaf fotwm *undo*'.

Llion Jones

#### TASG

Lluniwch drydargerdd ar y testun: 'Neges mewn argyfwng at frawd mawr'.



## Branwen – CA5

### Tasg 4 – Ymson / Sgwrs

Yn Eisteddfod Genedlaethol 2012, enillodd Gwyneth Lewis y goron am gerdd yn seiliedig ar ddyddiau olaf y saith marchog a Bendigeidfran yn Ynys Gwales. Mae elfen o hiwmor yn y gerdd, e.e. yn adran 9.

#### Cwmni

Daeth y dynion i gysuro Brân. Yr ail

Ddrws: siarad.

‘...Ond dyna ni, yn y pen draw

Pobol sy’n bwysig,’ medd Pryderi

Y llofrudd.

‘Bùm lamhidydd, bùm forfran ...’

Felly Daliesin. ‘Fachgen,’ atebodd Brân,

‘Fe smygest ti ormod o wymon.’

Glifiau Ail Taran: ‘Wrth gwrs, bydd dy grefydd

Yn gysur iti. I anffyddiwr fel fi

Dyw atgyfodiad ddim yn opsiwn.’ Brân:

‘Diolch yn fawr, ond rwy’n dal yn fyw.’

‘Ddaeth Heilyn fab Gwyn ddim i weld y pen

Ond roedd Ynog yn ddigon o ddyn i ddweud dim byd

Ond cadw cwmni, gadael i’r môr

Gymeradwyo pob anadl, pob eiliad.



'Mae 'nghefn i'n gwynegu,' cwynodd Griddieu

Fab Muriel. Brân: 'Rwyt ti'n lwcus

Fod gennyt ti gorff. Cer o 'ngolwg.'

Manawydan. 'Wyt ti'n meddwl \_?'

Brân: 'Nagw.' 'Was, 'ti'n fyr

Dy dymer!' Gadawodd.

Hughes, J. E. (2012) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Morgannwg*, Llys yr Eisteddfod tt. 66-67.

Darllenwch o: 'Ac ar ddiwedd y seithfed flwyddyn ...' ar dudalen 43 hyd at 'fe alwyd yr amser yma yn "Gwledd y Pen Urddol"' ar dudalen 44 o waith Gwyn Thomas.

Dychmygwch y saith marchog a phen Bendigeidfran ar Ynys Gwales yn ymddiddan â'i gilydd.

**Dyma nhw'r saith:**

Pryderi; Manawydan; Glifiau ail Taran; Taliesin; Ynawg; Gruddiau fab Muriel; Heilyn fab Gwyn Hen

Cofiwch mai Heilyn fab Gwyn Hen agorodd y drws a waharddwyd, sef y drws i Aber Henfelen.





Naill ai:

- Lluniwch sgwrs rhwng y saith marchog a Phen Bendigeidfran.  
Efallai yr hoffech chi ddefnyddio hiwmor a'u clywed yn tynnu coes (wps, does gan Bendigeidfran ddim coesau) ...

Neu:

- ysgrifennwch ymson Heilyn.  
Ceisiwch ddychmygu'r tyndra mae'n ei deimlo rhwng y demtasiwn i agor y drws a'r gwybod nad oes ganddo hawl i'w agor ...



## Branwen – CA5

### Tasg 5: Cyfenwau

Roedd yr hen Gymry'n cael eu hadnabod gan enw a fyddai'n disgrifio rhywbeth amdanyn nhw (yn aml lliw eu gwallt), neu enw a fyddai'n eu cysylltu â'u tad fel gyda 'Branwen ferch Llŷr.

Yn enw 'Penarddun ferch Beli fab Mynogan' dysgwn fod Penarddun yn ferch i Beli, ac roedd Beli yn fab i Mynogan.

Weithiau byddai'r 'ferch' yn troi yn 'ych' a'r 'mab' yn troi yn 'ap' neu 'ab'.

Dafydd ap Gwilym = Dafydd fab Gwilym

Owain ab Ifan = Owain fab Ifan.

Sylwch fod 'ap' yn troi'n 'ab' o flaen llafariad.

Mae llawer o'n cyfenwau ni hyd heddiw yn deillio o'r traddodiad hwn



Bowen          yn dod o          ab Owen

Price          yn dod o          ap Rhys

Powell          yn dod o          ap Hywel

Tasg: Darllenwch yr erthygl yn y ddolen isod a dyfeisiwch gyfenwau newydd i chi a'ch cyfeillion. Byddwch yn ddoeth a charedig!

[http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/hanes\\_teulu/03cyfenwau.shtml](http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/hanes_teulu/03cyfenwau.shtml)



## Branwen – CA5

Tasg 6: Cymharu cerddi

### MÔN, YNYS

Thomas, G. (2005) *Apocalups Yfory*, Barddas: Llandybie, tud 58

Y mae pobol y Tir Mawr, erioed, erioed  
Wedi edrych allan dros ddyfroedd  
At Ynysoedd a oedd, o’u cynefin hwy, yn weladwy  
Gan ddyheu – ag ysgraffau a llongau a phontydd –  
Am gael croesi drosodd;  
Croesi i dorri rhyw hen unigrwydd,  
Datrys rhyw hen ddirgelwch  
A chreu, fel y byddwn ni’n dweud,  
Gysylltiadau newydd.

A thros gerrynt ffyrnig y Fenai  
Fe hwyliwyd o Arfon i Fôn  
I geisio creu cyfathrach;  
Ac, yn y man, fe godwyd pontydd  
I gydio’r glannau dros ddyfroedd y gwahanrwydd.  
Daeth Môn yn dir cyfarwydd –  
Fe grewyd cysylltiadau.

Pam, felly, y mae yno  
O hyd – mewn manau cyfrin -  
Ryw unigrwydd, rhyw ddirgelwch  
Oedd yn hen, yn hen  
Pan fu i filwyr Rhufain  
Ymlafnio drwy’r Fenai i Fôn  
Yn amser y Derwyddon?

### Ynys Afallon

T Llew Jones Reynolds, I. (gol.) (2006) *Y Fro Eithinog, Casgliad o Gerddi*  
T Llew Jones, Gwasg Gomer: Llandysul

Draw ymhell dros donnau’r môr  
Mae ynys sy’n baradwys werdd,  
Ei gerddi a’i choedlannau’n llawn  
O flodau ac o adar cerdd.

Ni hwyliodd llong i’w thraethau hi,  
Ni roddodd morwr arni droed,  
Ac ni roes gwybodusion byd  
Ei henw hi ar fap erioed.

Ond mae hi’n bod, mi wn yn iawn,  
A blodau’r lotus yno a dyf,  
Ynys Afallon! Lle ni cheir  
Na churlaw mawr na chorwynt cryf.

Yno’r aeth Arthur gynt yng nghwch  
Y Tylwyth Teg i wella’i glwy’,  
I fyw am byth yng ngherddi’r rhos  
Ymhell o sŵn rhyfeloedd mwy.

Pan fyddaf innau’n teimlo’n flin  
Ac yn wangalon ambell waith,  
Mi fydda’ i’n rigio sgwner dal  
A mynd i’r ynys deg ar daith.





## Branwen – CA5

### Tasg 7: Trafod ffilm

<http://www.ffilmcymruwales.com/index.php/cy/gweld/ein-ffilmiau/149-patagonia>

Gwylwch y clip uchod. Mae'n ffilm am siwrnai i wlad arall i chwilio am rywbeth.

Rhagflas a geir yma a'i fwriad yw ein denu ni i fynd i weld y ffilm gyfan.

Ydy e'n llwyddo?

Pam?

Ystyriwch:

- y lluniau
- y gerddoriaeth
- y geiriau

Yn seiliedig ar eich nodiadau, ysgrifennwch golofn fer yn hysbysebu'r ffilm ar gyfer taflen gŵyl ffilmiau.